Hawdd ei Ddeall

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Adroddiad blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro

## Beth rydyn ni wedi ei wneud yn 2023 a 2024



Mae’r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro**. Mae’n fersiwn hawdd ei ddeall o ‘**BIP Caerdydd a’r Fro – Adroddiad Blynyddol 23-24**’.

**Hydref 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 33**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** https://bipcaf.gig.cymru

**E-bost:** Corporate.Meetingcav@wales.nhs.uk

**Ffôn:** 029 2074 7747

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys


Amdanom ni ........ 4

Am yr adroddiad yma ........ 6

Ein gwaith yn 2023 i 2024 ........ 7

Meysydd gwaith eraill ........ 15

Archwilio ansawdd ein gwaith ........ 28

Beth mae pobl yn ei feddwl ........ 29

Beth fydd yn digwydd nesaf ........ 31

Geiriau Anodd ........ 33

# Amdanom ni

Ni ydy **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro**.



Rydyn ni yn gyfrifol am wasanaethau’r GIG yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.

Ein prif nod ydy:



- helpu pobl i fyw’n dda



- ac i ddarparu gofal a thriniaeth ardderchog.



Rydyn ni yn gweithio gyda phartneriaid mewn gofal cymdeithasol ac mewn gwasanaethau gwirfoddol i ddarparu:

- **Gofal sylfaenol** - y lle cyntaf mae pobl yn mynd pan maen nhw angen gwasanaethau gofal iechyd.
- **Gwasanaethau atal** - i stopio pobl rhag mynd yn sâl, neu i stopio problemau rhag gwaethygu.
- **Gwasanaethau cymunedol**.
- **Gofal ysbyty a gwasanaethau arbenigol**.
- **Gofal brys ac argyfwng** – fel Unedau Damweiniau ac Achosion Brys a Mân Anafiadau
- **Triniaethau gofal wedi'u cynllunio**.
- **Gwasanaethau Meddygon Teulu**.



Rydyn ni yn gweithio gyda sefydliadau a phartneriaid addysg i hyfforddi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.




Rydyn ni yn adnabyddus am ein hymchwil a'n datblygiad o ansawdd uchel. Mae hyn yn ein helpu i ddod o hyd i ffyrdd newydd o wella gofal iechyd.

# Am yr adroddiad yma


Cynllunio ar gyfer ein Llesiant yn y Dyfodol

Mae gennym ni gynllun 10 mlynedd mawr o'r enw Siapio ein Llesiant yn y Dyfodol. Mae'n dweud beth fyddwn ni'n ei wneud i wella iechyd a llesiant rhwng 2023 a 2025.


Hawdd ei Ddeall

Adroddiad blynyddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Beth rydyn ni wedi ei wneud yn 2023 a 2024

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**BIP Caerdydd a'r Fro – Adroddiad Blynyddol 23-24**'.

**Hydref 2024**

Mae'r adroddiad yma am y gwaith rydyn ni wedi ei wneud ar hyn yn 2023 i 2024.



**Yn ystod 2023-2024 roedd yn canolbwyntio ar:**

- Gofal Brys ac Argyfwng
- Gwasanaethau canser
- Gofal a Diagnosis wedi'i Gynllunio
- Iechyd Meddwl
- Gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol
- Rhestrau aros



Rydyn ni yn seilio ein cynlluniau ar anghenion iechyd a llesiant y bobl yng Nghaerdydd a'r Fro.

# Ein gwaith yn 2023 i 2024

## Gofal Brys ac Argyfwng



Fe wnaethon ni dros 225,000 o ymweliadau nyrsio gartref.



Cafodd y cynllun **Diogel @ Home** ei lansio. Nod y cynllun yma ydy darparu gofal i bobl hŷn gartref cyn bod angen iddyn nhw gael eu rhuthro i'r ysbyty.



Rydyn ni wedi gwneud ein Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys yn fwy. Mae mwy o apwyntiadau ar gael bob wythnos.




Mae mwy o bobl yn cael gofal a chymorth mewn pryd drwy:

- Gwasanaeth **GIG 111** newydd
- Gwasanaeth **CAV 24/7**.



Fe gawson ni rai heriau gyda **rhyddhau pobl o'r ysbyty**. A gwneud yn siŵr bod gofal a chymorth cymunedol ar gael ar ôl **rhyddhau o'r ysbyty**.

**Rhyddhau o'r ysbyty** ydy'r broses sy'n digwydd pan fydd claf yn gadael yr ysbyty.



Roedd gennym ni 221 o gleifion oedd wedi profi oedi wrth drosglwyddo o'r ysbyty. Dyma pryd mae claf yn barod i adael yr ysbyty ond mae'n dal i gymryd lle gwely yn yr ysbyty.



Rydyn ni'n gallu trin mwy o bobl mewn damweiniau ac achosion brys. Ac rydyn ni wedi gwneud lle ar gyfer **Uned Penderfyniadau Clinigol ar gyfer Oedolion a Phlant**. Mae hwn yn ofod i gleifion damweiniau ac achosion brys sydd angen mwy o ofal, ond does dim angen eu derbyn i'r ysbyty.



Rydyn ni yn gwella ambiwlansys. Ni ydy'r unig Fwrdd Iechyd lle nad oes rhaid i'n cleifion aros mwy na 4 awr ar ambiwlans.




Rydyn ni yn gweithio i gael cleifion oddi ar ambiwlansys hyd yn oed yn gyflymach. Ac i gyflymu'r amser mae'n ei gymryd i gleifion gael eu trin.




Rydyn ni wedi canolbwyntio ar ostwng derbyniadau diangen i'r ysbyty. Dyma pryd mae claf yn cael ei dderbyn i'r ysbyty, pryd y gallai fod wedi cael triniaeth gartref neu heb orfod aros dros nos.



Rydyn ni wedi gwneud cynnydd da mewn meysydd fel strôc a thoriadau clun. Gall mwy o gleifion strôc gael eu derbyn o fewn 4 awr. A chael sgan CT o fewn 1 awr.

## Gwasanaethau canser




Rydyn ni yn gwneud cynnydd da yma'n araf.



Mae mwy o gleifion canser yn cael triniaeth o fewn 62 diwrnod. Ond dydyn ni ddim wedi cyrraedd ein targed eto.



Roedden ni yn gallu gostwng nifer cyffredinol y cleifion ar ein rhestr aros am driniaeth canser.


# Gofal a Diagnosis wedi'i Gynllunio



Rydyn ni wedi gweithio'n galed i leihau rhestrau aros ar draws gofal sydd wedi'i gynllunio.



Fe wnaethon ni gyrraedd targedau'r llywodraeth ar gyfer nifer y bobl sy'n aros dros 2 flynedd am driniaeth.




Rydyn ni yn gwybod bod cleifion yn dal i aros yn rhy hir am driniaeth. Fe fyddwn ni yn parhau i weithio i leihau amseroedd aros yn ystod y flwyddyn nesaf.



Mae nifer y cleifion sy'n aros dros 8 wythnos am brofion wedi cynyddu.



Er ein bod wedi cwtogi amseroedd aros ar gyfer rhai profion, mae rhestr aros hir i eraill.

# Iechyd Meddwl



Mae’r galw am wasanaethau iechyd meddwl wedi parhau i fod yn uchel.




Rydyn ni wedi gwneud cynnydd mewn asesiadau Llesiant Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant.




Rydyn ni wedi cwtogi’r rhestr o gleifion sy’n aros am asesiadau.




Mewn gwasanaethau oedolion, roedden ni yn gallu cynnal asesiadau o fewn 28 diwrnod.




Fe wnaethon ni leihau’r rhestr aros ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta oedolion a phlant.



Roedd llai o gleifion ar restrau aros am wasanaethau therapi. Cafodd mwy o gleifion eu gweld o fewn 26 wythnos.




Roedd ychwanegu’r llinell Iechyd Meddwl at **NHS111** wedi helpu. Roedd yn darparu cefnogaeth a chyngor i gleifion.

# Gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol



Mae hyn yn bethau fel meddygon teulu, fferyllfeydd a deintyddion.

**Mae gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol dan bwysau. Ond rydyn ni wedi parhau i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned:**



- Roedd y rhan fwyaf o fferyllfeydd yn darparu cyngor a thriniaeth ar gyfer cyflyrau iechyd bob dydd.



- Roedd y rhan fwyaf o feddygfeydd teulu ar agor rhwng y prif oriau 8 am i 6.30pm.



- Roedd llai o atgyfeiriadau o **optometreg** i ofal eilaidd. **Optometreg** ydy'r arfer o archwilio'r llygaid.



- Cafodd mwy o gleifion apwyntiadau deintyddol.

# Meysydd gwaith eraill

## Hunanladdiad a hunan-niweidio



Rydyn ni yn parhau i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o hunanladdiad.



Rydyn ni wedi sefydlu grŵp gyda phobl â phrofiadau byw i oruchwylio'r hyfforddiant yma.

## Stopio Cwympiadau Cymunedol



Mae stopio cwympiadau yn meddwl lleihau nifer cwympiadau damweiniol pobl hŷn.




Rydyn ni yn parhau i hyrwyddo ein rhaglen Stopio Cwympiadau Cymunedol i sefydliadau eraill ac awdurdodau lleol.



Mae gennym ni wybodaeth am **Elderfit** ar ein gwefan. Maen nhw yn gwmni sy'n darparu dosbarthiadau ymarfer corff ar gyfer pobl hŷn.



Mae gennym ni wythnos stopio cwympiadau. A rhoi awgrymiadau trwy'r cyfryngau cymdeithasol.



Mae gennym ni gerdyn o'r enw **Sgwrs Dosturio**l. Mae hyn er mwyn annog sgyrsiau am gwympiadau.



Mae gennym ni hyfforddiant stopio cwympiadau ar gyfer staff.

## Gwella gofal diwedd oes



Mae City Hospice a Marie Curie yn darparu hyfforddiant i dimau nyrsio cymunedol a chartrefi nyrsio. Gwneud yn siŵr bod safonau uchel o ran gofal.



Mae nyrsys arbenigol wedi darparu dros 100 awr o hyfforddiant.



Mae gennym ni adnoddau gwybodaeth ar gyfer gofalwyr sy'n cefnogi cleifion sydd â gofal diwedd oes.

## Digidol



Rydyn ni wedi datblygu teclyn o'r enw **Offeryn Chwilio Plant a Phobl Ifanc**.



Mae'n cadw gwybodaeth am un person ifanc mewn un lle. Fe fydd yn helpu staff, awdurdodau lleol a sefydliadau sy'n gweithio gyda'r person ifanc.



Mae apiau newydd wedi cael eu datblygu i wella gwneud ceisiadau prawf am radioleg. Mae hyn yn rhywbeth fel pelydrau X.



Rhaglen genedlaethol ydy **Scan4safety**,  sydd yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â Gwasanaethau a Rennir GIG Cymru.



Mae wedi cael ei chynllunio i arbed costau, gweithio'n effeithlon a gwella diogelwch cleifion. **Er enghraifft**:

- Mae **Mesurau Canlyniad a Adroddir gan Glaf (PROM)** wedi helpu i leihau amseroedd aros ar gyfer gofal wedi'i gynllunio. Mae PROM yn holiadur am eich iechyd a'ch llesiant.

- Mae **system i olrhain a rheoli cleifion (STAMP)** yn helpu timau i weld lle mae cleifion. A beth maen nhw'n aros amdano.

## Cydweithio



Rydyn ni yn gweithio gyda llawer o bartneriaid i wella iechyd a llesiant ein cleifion.



Mae’r partneriaid yma yn cynnwys sefydliadau eraill GIG Cymru, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a sefydliadau eraill.



Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm sy’n gweithio i bartneriaid Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a’r Fro (CVRPB).



Mae’r tîm yma wedi helpu timau iechyd a gofal i ddarparu llawer o wasanaethau.



Rydyn ni yn parhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Gyda’n gilydd, rydyn ni yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethan triniaeth arbenigol.

# Ein staff



Mae gennym ni dros 17,000 o staff.




Yn ystod 2023 i 2024, fe wnaethon ni ganolbwyntio ar 3 peth:

1. Dod o hyd i ffyrdd o wneud ein sefydliad yn lle gwych i weithio.

2. Gwella sut rydyn ni yn cadw ein staff presennol.

3. Gwneud yn siŵr bod gan ein staff y sgiliau a'r cyfleoedd cywir ar gyfer twf.




Mae dros 350 o swyddi gwahanol yn y GIG. Fe wnaethon ni ganolbwyntio ar hyrwyddo'r cyfleoedd gwaith yma.



Ein nod ydy gwneud cyfleoedd gwaith yn well i bawb.

## Prentisiaethau



Roedden ni yn rownd derfynol Gwobrau Prentisiaethau Cymru 2024. Mae wedi derbyn 2 wobr ‘Engage to Change’.



Eleni, roedd gennym ni 14 o brentisiaid newydd mewn gwahanol adrannau. Mae 13 o brentisiaid wedi cael cynnig swyddi parhaol.

## Llesiant staff




Fe wnaethon ni lansio teclyn o’r enw **Fy Mhasbort Iechyd**. Mae hyn yn helpu staff sydd â chyflyrau iechyd hir dymor neu anableddau. Mae’n helpu pobl i gael y gefnogaeth neu’r addasiadau maen nhw eu hangen yn y gweithle.



Rydyn ni wedi gwneud ein gorau glas i gefnogi ein staff yn ystod y cyfnod heriol yma.



Fe wnaethon ni gael ‘Partner Cyflogres Sector Cyhoeddus’ y Flwyddyn gan Undeb Credyd Cymru ym mis Hydref 2023.

# Cynnwys pawb




Fe wnaethon ni barhau i greu sefydliad mwy **cynhwysol** ar gyfer ein staff a'n cymunedau.

Mae **cynhwysol** yn meddwl bod pawb yn cymryd rhan.



Fe wnaethon ni greu a rhannu ein trydydd **Calendr Cynhwysiant**. Mae dyddiadau yn hwn i godi ymwybyddiaeth a dathlu **amrywiaeth**.




Fe wnaethon ni gynllun **gweithredu gwrth-hiliol** gyda'r Rhwydwaith Staff Un Llais a phartneriaid undebau llafur.




Fe aethon ni i Pride Cymru gyda chydweithwyr o bob rhan o GIG Cymru.



Rydyn ni wedi datblygu nifer o rwydweithiau staff.




Roedd gennym ni stondinau am **gynhwysiant** mewn ffeiriau gyrfa.



Fe wnaethon ni barhau i ddatblygu'r **Rhaglen Llysgenhadon Cynhwysiant** i helpu uwch arweinwyr i ddeall ein staff **amrywiol**.



Mae **amrywiol** yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu'n dda mewn gwahanol bethau.

## Y Gymraeg



Rydyn ni yn yn dilyn Safonau'r Gymraeg. Mae wedi ein helpu i wella ein gwasanaethau Cymraeg i gleifion a'r gymuned ehangach.




Fe wnaethon ni greu a rhannu cerdyn ymadroddion Cymraeg.





Fe wnaethon ni annog staff i ymuno â chyrsiau dysgu Cymraeg. A hybu gwersi iaith yn ystod dyddiau arbennig fel Dydd Gŵyl Dewi.




Fe wnaethon ni greu cwrs o'r enw **Adeiladu Hyder** i helpu staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio eu sgiliau.

Fe wnaethon ni sefydlu **Rhwydiaith** - rhwydwaith staff ar gyfer defnyddwyr Cymraeg.



Rydyn ni wedi gweithio gyda Byrddau Clinigol i wella gwasanaethau Cymraeg.




Fe wnaeth ein Tîm Cyfieithu Cymraeg gyfieithu dros 1 miliwn o eiriau.



Fe wnaethon ni hysbysebu swyddi sydd angen pobl sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Neu sydd efallai â rhywfaint o sgiliau Cymraeg.

## Cynaliadwyedd



Mae **cynaliadwyedd** yn meddwl gwneud dewisiadau am beth rydyn ni yn ei wneud felly mae pethau'n para'n hirach.

## Amgylchedd



Mae hyn yn meddwl diogelu ein hamgylchedd a meddwl am y dyfodol.



Ein nod ydy gostwng ein hallyriadau carbon deuocsid bron i hanner erbyn 2027. Mae carbon deuocsid yn sylwedd niweidiol sy'n effeithio'n wael ar ein hamgylchedd.

## Siarter Newid Hinsawdd



Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg a'i bartneriaid wedi cytuno ar siarter Newid Hinsawdd.



Mae'r siarter yn ganllaw ar weithredu i leihau effaith **newid hinsawdd**.


Mae **newid yn yr hinsawdd** yn meddwl bod y blaned yn mynd yn boethach. Mae hyn oherwydd y pethau y mae pobl yn eu gwneud. Fel defnyddio tanwydd sy'n niweidio'r blaned.




Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd wedi gwneud lleihau'r defnydd o garbon yn flaenoriaeth.



Mae gennym ni brosiectau fel prosiect **Orchards and Horiatio's Garden** a'r prosiect Meadows. Nod y prosiectau yma ydy defnyddio ein mannau gwyrdd ar gyfer iechyd a llesiant ein cleifion, ein staff a'n hymwelwyr.




Rydyn ni eisiau cyflawni'r nodau yng **Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru**. Mae'r cynllun yma yn cynnwys nodau i Fyrddau Iechyd yng Nghymru helpu i gyflawni nodau carbon isel Cymru.

# Archwilio ansawdd ein gwaith




Mae ansawdd yn bwysig iawn i ni. Mae angen i'n gwasanaethau fod yn ddiogel i gleifion. A rhoi profiad a chanlyniadau da iddyn nhwt.



Mae gennym ni system gref ar gyfer edrych ac adrodd ar ansawdd.



Rydyn ni wedi cael **archwiliadau clinigol** yn ein holl wasanaethau. Mae **archwiliad clinigol** yn ffordd o ddarganfod ydy gofal iechyd yn cael ei ddarparu yn ôl y safonau. Mae'n ein helpu i wybod lle mae ein gwasanaethau'n gweithio'n dda. Lle rydyn ni'n gallu gwella.





Yn 2022, fe wnaethon ni gyhoeddi strategaeth archwilio clinigol 3 blynedd. Rydyn ni am ddefnyddio archwiliadau clinigol ar bob lefel o'r sefydliad.

# Beth mae pobl yn ei feddwl



Mae’n bwysig ein bod ni’n gwrando ar bobl.




Rydyn ni yn defnyddio gwahanol fathau o arolygon ac offer i gael adborth gan bobl.




Rydyn ni yn delio â chwynion yn y ffordd iawn. Parhau i ddysgu oddi wrth bryderon.



Mae’r rhan fwyaf o’r cwynion rydyn ni y neu cael am:

- Amseroedd aros
- Apwyntiadau wedi’u canslo
- Cyfathrebu
- Triniaeth ac asesu



Cafodd tua 800 o negeseuon testun eu hanfon bob dydd i gael adborth ar brofiad yn yr ysbyty.




Yn 2023 i 2024, fe wnaeth 17 o bob 100 o bobl ymateb i'r negeseuon testun.



Roedd y rhan fwyaf o bobl wnaeth lenwi arolwg yn hapus gyda'u profiad.

Mae gennym ni bosteri ac arwyddion o amgylch ein hysbytai gyda **chodau QR**. Mae hyn er mwyn annog pobl i rannu eu profiadau.



Rydyn ni yn rhannu canmoliaeth ac awgrymiadau i ddysgu o brofiad. Gwneud newidiadau i wella ein gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

# Beth fydd yn digwydd nesaf



Rydyn ni wedi gwneud llawer o welliannau dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Wrth edrych ymlaen, fe fyddwn ni yn:**




- Adolygu sut rydyn ni yn darparu ein gwasanaethau.



- Gwella modelau gofal. Mae modelau gofal yn dangos sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu.



- Canolbwyntio ar ansawdd.



Fe fydd y pethau yma yn ein helpu i barhau i wella. Darparu'r gofal gorau i'n cymuned.

**Fe fyddwn ni yn parhau i weithio ar:**



- Gwella mynediad at ofal sydd wedi’i gynllunio.




- Lleihau amseroedd aros a rhestrau aros. Yn enwedig ar gyfer triniaethau canser.



Fe fyddwn ni yn parhau i weithio ar bob maes gofal brys ac argyfwng.

# Geiriau Anodd

## Newid hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd yn meddwl bod y blaned yn mynd yn boethach. Mae hyn oherwydd y pethau y mae pobl yn eu gwneud. Fel defnyddio tanwydd sy'n niweidio'r blaned.

## Amrywiol

Mae amrywiol yn meddwl nad ydy pobl i gyd yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu'n dda mewn gwahanol bethau.

## Rhyddhau o'r ysbyty

Rhyddhau o'r ysbyty ydy'r broses sy'n digwydd pan fydd claf yn gadael yr ysbyty.

## Cynhwysol

Mae cynhwysol yn meddwl bod pawb yn cymryd rhan.

## Cynaliadwyedd

Mae cynaliadwyedd yn meddwl gwneud dewisiadau am beth rydyn ni'n ei wneud felly mae pethau'n para'n hirach.